

Sut i: gasglu data ar gyfer monitro



Drwy gasglu data, byddwch yn gallu cadw a dadansoddi gwybodaeth bwysig ynghylch prosiectau sydd ar y gweill, a fydd, yn y man, yn datblygu prosiectau newydd. Bydd yn dangos manteision ac anfanteision prosiect i'ch buddiolwyr ac yn gallu ei addasu ar gyfer eich anghenion.

Cyn cychwyn ar brosiect

Mae yna lawer o wahanol ddata ansoddol y gallwch chi ei gasglu, yn dibynnu ar eich prosiect. I gael eglurhad ar y gwahanol fathau, cliciwch yma.

Wrth gasglu data ar gyfer eich prosiect, mae'n braf gallu dangos sut mae pethau'n newid wrth i'r prosiect symud yn ei flaen.

Gofynnwch i'ch buddiolwyr lenwi'r ffurflen cyn cychwyn ar y prosiect, yn ystod y prosiect ac ar ôl gorffen y prosiect. Bydd hyn yn eich galluogi i weld a ydych chi'n cyrraedd amcanion y prosiect ac ar gyfer datblygiad parhaus.

Yn ystod y prosiect

Hanner ffordd trwy'r prosiect, cyn y ffurflen fonitro interim, bydd gofyn i'ch buddiolwyr lenwi'r un ffurflen gasglu data o'ch dewis chi. Bydd y canlyniadau'n rhoi gwybodaeth i chi ynghylch datblygiad parhaus.

Pethau i feddwl yn eu cylch:

- A yw'r prosiect yn symud ymlaen fel yr oeddech chi'n gobeithio ar y ffurflen gais?
- A oes rhywbeth yn gweithio'n well nag oeddech chi'n ddisgwyl ac ydych chi'n canolbwyntio mwy ar hynny?
- A ddylid newid unrhyw beth?

Diwedd y Prosiect

Ar ddiwedd y prosiect, cyn diwedd y ffurflen monitro grant, mae gofyn i'ch buddiolwyr lenwi'r ffurflen gasglu data am y tro olaf. Bydd y canlyniadau'n dangos i chi lwyddiannau'r prosiect a hefyd beth nad oedd wedi gweithio cystal. Gallwch ddefnyddio'r data hwn i deilwra prosiectau newydd i ateb gofynion eich buddiolwyr.